



Mynediad i Bolisi Gwybodaeth

Mae'r **Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA)** yn rhoi caniatâd cyhoeddus i gyrchu gwybodaeth a gedwir gan gyrrff cyhoeddus ac mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i dryloywder a didwylledd yn y modd yr ydym yn gweithio fel sefydliad i alluogi gwell dealltwriaeth gyhoeddus o paham a sut mae'n gweithredu ei swyddogaethau, tra'n parchu preifatrwydd unigolion sy'n cysylltu â ni. Rydym yn dymuno bod mor agored â phosibl a chyflwyno'r wybodaeth y gofynnir amdani, oni bai bod yna resymau dilys dros beidio gwneud hynny.

Yn ychwanegol at gyflawni gofynion yr FOIA a deddfwriaeth berthnasol, mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i ddefnyddio iaith glir a phlaen a chynhyrchu dogfennau hygyrch, hawdd eu darllen.

Mae **Gwybodaeth Bersonol** yn cael ei diogelu gan egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data (DPA) ac o 25 Mai 2018 mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn dwyn rhai newidiadau arwyddocaol i'n dulliau o drin gwybodaeth bersonol. Mae gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn rhoi gwybodaeth bellach am GDPR - <https://ico.org.uk>

Sut i wneud cais am wybodaeth o dan hawl gyffredinol y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i gael mynediad i wybodaeth

Dylai ceisiadau am wybodaeth:

- Fod wedi eu hysgrifennu (yn cynnwys e-bost) at y cyfeiriad isod
- Gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad (gall hyn fod yn gyfeiriad e-bost)
- Ddisgrifio'n glir y wybodaeth yr ydych ei hangen
- Nodi sut yr hoffech dderbyn yr wybodaeth (e.e. drwy e-bost neu drwy'r post)
- Fod mor benodol â phosibl yn eich cais e.e. nodi ystod dyddiadau
- Cyn i chi anfon eich cais gallai fod yn ddefnyddiol i wirio ein Cynllun Cyhoeddi i weld a yw'r wybodaeth yr ydych ei heisiau ar gael yn barod.

Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Siambrau'r Farchnad

5-7 Heol y Santes Fair

Caerdydd CF10 1AT

Ebost: contactus@futuregenerations.wales

Sut fyddwn ni'n ymdrin â'ch cais am wybodaeth

Pan fyddwn yn derbyn cais am wybodaeth, yn y lle cyntaf byddwn yn asesu a yw'r wybodaeth yn cael ei chadw gennym ni.

Mae yna rai gwahaniaethau pwysig a fydd yn effeithio ar ein dull o ymdrin â'ch cais:

- Mae gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan y Comisiynydd yn amodol ar Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA). Gall y bydd peth gwybodaeth ar gael eisoes (ar ein gwefan neu drwy gais blaenorol).
- Mae Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR) yn berthnasol i rai categorïau o wybodaeth sy'n berthnasol i'r amgylchedd. Nid oes angen i geisiadau am wybodaeth amgylcheddol fod yn ysgrifenedig, ond er mwyn eglurder gallai hyn fod yn fuddiol.
- Os yr ydych yn gofyn am wybodaeth bersonol amdanoch chi eich hunan bydd hyn yn cael ei drin fel **Cais Gwrthrych am Wybodaeth** (SAR). Byddai angen i ni gadarnhau pwy ydych chi a gall y bydd angen talu ffi (gweler Cais Gwrthrych am Wybodaeth isod).

Ein dyletswyddau ni

Fe fyddwn, ble mae hynny'n rhesymol ac ymarferol:

- Yn rhoi cyngor a chymorth i'r rhai sy'n chwilio am wybodaeth
- Yn ymgynghori â thrydydd parti perthnasol parthed ceisiadau
- Yn rhoi'r wybodaeth a ofynnwyd amdani oni bai ei bod o dan gyfyngiad cyfreithiol
- Yn ymateb yn fuan ac yn rhoi gwybodaeth o fewn amserlen a ragnodwyd
- Yn rhoi gwybodaeth yn y ffurf y gofynnir amdani
- Yn archwilio ac yn rhoi ymatebion amserol ac ystyriol i gwynion am y modd y caiff ceisiadau am wybodaeth eu trin.

Rhoi cyngor a chymorth

Byddwn, cyn belled ag y mae hynny'n rhesymol ac ymarferol, yn rhoi cyngor a chymorth i'r rhai sy'n chwilio am fynediad i wybodaeth a gedwir. Efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi i egluro agweddau ar eich cais neu i'ch cyfeirio at sefydliad arall a allai fod yn dal yr wybodaeth yr ydych yn chwilio amdani.



Lle mae person yn anabl, er enghraifft oherwydd anabledd, i anfon eu cais yn ysgrifenedig, caiff nodyn ysgrifenedig ei wneud o unrhyw gais o'r fath dros y ffôn a bydd hyn yn cael ei gadarnhau gyda'r person sy'n gwneud y cais. Yn dilyn hyn, bydd y cais yn cael ei gyfrif fel cais ysgrifenedig.

Ymgynghori â thrydydd parti

Os ydych chi'n wybodaeth y gwnaethpwyd cais amdani'n golygu cael gwybodaeth oddi wrth drydydd parti, fel arfer bydd angen ymgynghori â phob un sy'n gysylltiedig i helpu i sicrhau bod eu hawliau hwy wedi eu hystyried mewn dull priodol. Bydd y penderfyniad p'un ai i ddatgelu'r wybodaeth ai peidio'n aros yn benderfyniad i'w wneud gan y Comisiynydd.

Rhoi gwybodaeth oni bai bod gwaharddiad yn berthnasol

Amcan y mynediad i ddeddfwriaeth gwybodaeth yw creu cytbwysedd rhwng y ceisiadau am fwy o onestrwydd a'r angen i ddiogelu gwybodaeth lle byddai ei datgelu'n achosi niwed neu'n mynd yn groes i les y cyhoedd. Mae'r ddeddfwriaeth yn cydnabod nad yw'n briodol i'r holl wybodaeth sy'n cael ei chadw gan y Comisiynydd gael ei gwneud yn gyhoeddus. Felly, weithiau gwaherddir datgelu gwybodaeth o dan y ddeddfwriaeth, yn amodol ar brawf lles y cyhoedd lle mae hynny'n berthnasol. Mae'r fath eithriadau'n cynnwys o ble y cafwyd y wybodaeth y gwnaethpwyd cais amdani gan y Comisiynydd wrth iddi gyflawni ei swyddogaethau; a gwybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol.

Rhesymau eraill dros wrthod eich cais

Gall y bydd y Comisiynydd hefyd yn gwrthod eich cais am wybodaeth:

- Os byddai amcangyfrif o gost cydymffurfio â'r cais yn mynd tu hwnt i'r terfyn o £450 a nodwyd;
- Os na fydd y wybodaeth yr ydych chi'n dymuno yn medru cael ei hadnabod yn dilyn ymgais i egluro eich cais;
- Os mai prif ddiben eich cais yw achosi niwed neu boendod ac nid er mwyn ennill gwybodaeth;
- Os bydd gwybodaeth debyg eisoes wedi ei rhoi i chi'n ddiweddar;
- Bydd y rheswm dros wrthod rhoi'r wybodaeth y gwnaethoch gais amdani bob amser yn cael ei egluro.

Ymateb yn gyflym

Byddwn yn cydnabod eich cais o fewn pum niwrnod gwaith ac yn ymateb i'ch cais yn brydlon o fewn 20 niwrnod gwaith. Gall y bydd y terfyn amser hwn yn cael ei ymestyn o dan amgylchiadau arbennig. Mae diwrnod gwaith yn golygu unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith

neu ŵyl y banc.

Pan fydd angen ymestyn y cyfnod amser, er enghraifft i ystyried prawf lles y cyhoedd, bydd y Comisiynydd yn ysgrifennu atoch i egluro pam, gan roi dyddiad cau newydd i chi.

Os oes nodyn o gais a wnaed dros y ffôn wedi ei baratoi gan staff ar ran yr un a wnaeth y cais, mae'r 20 niwrnod gwaith yn dod i rym o'r adeg y cafodd y cais ei gadarnhau gan yr un â'i gwnaeth.

Trosglwyddo ceisiadau

Ni fedr y Comisiynydd roi gwybodaeth nad yw'n ei chadw. Os ydyw'r wybodaeth yn cael ei chadw gan awdurdod cyhoeddus arall hysbysir chi nad yw'r wybodaeth yn cael ei chadw gennym ni a byddwn yn awgrymu y dylid gwneud y cais i'r awdurdod sy'n debygol o'i chadw, neu, os ydyw hynny'n briodol, a gyda'ch caniatâd chi, gallwn drosglwyddo'r cais yn uniongyrchol.

Rhoi gwybodaeth yn y ffurf a ffefrir

Yn gyffredinol bydd y rhai sy'n gwneud cais am wybodaeth yn ei derbyn yn Saesneg neu Gymraeg, yn ôl eu dymuniad. Bydd y Comisiynydd yn cynhyrchu dogfennau yn Saesneg a Chymraeg yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Comisiynydd, a bydd hefyd yn sicrhau bod copïau o eitemau ar gael mewn print bras, braille neu dâp sain os gwneir cais amdanynt, lle mae hynny'n ymarferol.

Codi tâl am wybodaeth

Ni fydd y Comisiynydd yn codi tâl am wybodaeth ac eithrio ar gyfer adennill cost llungopïo, argraffu a phostio pan fydd yn uwch na £10.

Eithriad arall yw lle mae amcangyfrif o gost rhoi'r wybodaeth yn uwch na £450, fel y caiff ei ddiffinio gan y rheoliadau o dan y Ddeddf. Lle mae hyn yn berthnasol, bydd y gost yn cael ei chyfrifo yn unol â'r rheoliadau hynny, ac fe'ch hysbysir am y swm y byddai'n rhaid i chi ei dalu.

Lle mae amcangyfrif o'r costau'n uwch na £450, gellir rhoi cymorth i chi gwtogi cwmpas eich cais i'w dwyn o fewn y terfyn cost.

Cwynion

Tra bydd y Comisiynydd, ble bynnag mae hynny'n bosibl, yn cyflenwi'r wybodaeth y gwnaethoch ymgeisio amdani, mae peth gwybodaeth ar gael na ellid ei datgelu. Os caiff eich cais am wybodaeth ei wrthod byddwch yn derbyn eglurhad ysgrifenedig gyda'r rhesymau dros wneud y penderfyniad. Os yr ydych yn anhapus gyda'r ymateb neu'r ffordd y mae eich cais wedi cael ei drin dylech gysylltu â'r:

Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol

Siambrau'r Farchnad

5-7 Heol y Santes Fair

Caerdydd CF10 1AT

Email: contactus@futuregenerations.wales

Bwriad y Comisiynydd yw rhoi ateb llawn i chi am eich cwyn o fewn 20 niwrnod gwaith. Os oes yna reswm da sy'n gwneud hyn yn amhosibl byddwch yn derbyn llythyr yn eich hysbysu o'r rhesymau. Os yr ydych yn dal yn anhapus gall y byddwch yn dymuno cyfeirio eich cwyn at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru

2ail Lawr Tŷ Churchill

Ffordd Churchill

Caerdydd, CF10 2HH

Ffôn: 029 2067 8400

Ffacs: 029 2067 8399

Ebost wales@ico.org.uk

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar www.ico.org.uk



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Cais Gwrthrych am Wybodaeth

Mae gennych yr hawl i wneud cais am gopi o'r wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanoch (er enghraifft cofnodion o unrhyw ohebiaeth yr ydych wedi ei hanfon atom).

Os hoffech gael copi o beth neu'r oll o'ch gwybodaeth bersonol os gwelwch yn dda anfownc'h gais ysgrifenedig i'r cyfeiriad neu'r e-bost isod. Os gwelwch yn dda nodwch eich enw a'ch cyfeiriad ac unrhyw wybodaeth arall i helpu i'ch adnabod chi a'r wybodaeth sydd arnoch ei hangen.

Byddwn angen prawf o bwy ydych chi (er enghraifft copi o fil cyfleustodau) i gychwyn prosesu eich cais.

Byddwn yn rhoi ymateb i chi o fewn 20 niwrnod gwaith yn dilyn derbyn yr wybodaeth angenrheidiol i'n helpu i ddod o hyd i'ch cofnodion.

Rydyn ni eisiau sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol yn gywir ac yn ddiweddar. Gallwch ofyn i ni gywiro neu ddileu gwybodaeth sydd yn eich barn yn anghywir. Os gwelwch yn dda cysylltwch â ni:

Swyddog Diogelu Data
Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Siambrau'r Farchnad

5-7 Heol y Santes Fair

Caerdydd CF10 1AT

Ebost: contactus@futuregenerations.wales

Gwybodaeth ddefnyddiol

Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a'i swyddfa ar ein gwefan ac yn ein Cynllun Cyhoeddi.